



Mae pobl yn rhyfeddu at ystlumod. Am ganrifoedd mae ystlumod wedi cael eu defnyddio ar draws y byd fel delweddau grymus mewn celf a chrefft, wedi cael eu cysylltu â llawer o wahanol ddiwylliannau ac wedi golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae symbolau'n gallu cael eu hadnabod yn eang, gan fod dim angen i'r sawl sy'n eu gweld fod yn llythrennog i ddeall yr ystyr.

Mae llawer o chwedloniaeth ar draws y byd wedi cyfleu'r ystlum mewn goleuni anffafriol. Mae ystlumod yn aml wedi cael eu camddeall, ac mae llawer o'u hystyron symbolaidd wedi cael eu seilio'n amhriodol ar ofn. Yn y traddodiad Beiblaidd, y gred oedd mai ystlumod oedd negeseuon Satan. Credai'r Piwritaniaid, petai ystlum yn hedfan yn agos at rywun, fod rhywun yn ceisio bwrw hud arny'n nhw.



Gan mai anifeiliaid sy'n effro yn y nos yw ystlumod yn bennaf, y gwir syml amdani oedd bod y creaduriaid hyn yn anghyfarwydd i bobl; yn aml mae'r hyn sy'n anghyfarwydd yn cael ei gamddeall; mae llên werin yn llawn hanesion sy'n cynnig esboniadau ynghylch sut daeth creaduriaid mor ddirgel ag ystlumod i fodolaeth.

Roedd chwedlau a hanesion yn aml yn cynnwys, er enghraifft, tueddiad yr ystlum i groesi'r ffin rhwng byd mamaliaid ac adar; yn dibynnu ar y sefyllfa a'r anghenion, byddai'n ei ddiffinio ei hun fel y naill neu'r llall. Ac wrth gwrs, oherwydd eu bod yn byw mewn ogofeydd tywyll, oedd yn cael eu gweld fel porth i dir marwolaeth mewn llawer o ddiwylliannau, roedd ystlumod yn cael eu cysylltu â thywyllwch a marwolaeth.

Yn Tsieina, fodd bynnag, mae'r ystlum yn cael ei ystyried yn symbol o hapusrwydd. Gall fod llawer o wahanol ystyron i eiriau bach un sillaf yn yr iaith



Tsieineeg. Mae'r gair Tsieineeg am ystlum (fu 蝠) yn swinio'n union yr un fath â'r gair am lwc dda (fu 福), a hefyd yn golygu hapusrwydd, cyfoeth a hir oes. Mae pum ystlum gyda'i gilydd yn cynrychioli'r 'Pum Bendith' (wufu 五福): hir oes, cyfoeth, iechyd, cariad at rinwedd a marwolaeth dawel.

Mae eu defnydd o eicoleoliad yn galluogi ystlumod i hedfan mewn heidiau anferth heb fwrw yn erbyn ei gilydd. Oherwydd hynny a'u gallu i symud o gwmpas, hyd yn oed yn y tywyllwch, mewn rhai diwylliannau mae ystlumod yn cynrychioli canfyddiad o'r pethau na all eraill eu gweld. I lwythau Indiaidd gogledd-orllewin Taleithiau America, mae ystlumod yn symbolau o ddiwydrwydd, tra'u bod yn rhoi doethineb i'w pobl ar y Gwastadeddau Mawr. Yn y de-orllewin a Mecsico, maen nhw'n cynrychioli marwolaeth ac aileni, oherwydd eu bod yn mynd o dan ddaear yn y bore cynnar, ac yna'n ailymddangos yn y nos yn haid swllyd. Felly maen nhw'n cael eu haileni bob nos, wrth lifo allan o'u hogofeydd.

Mae'r ystlum wedi cael ei ddefnyddio'n symbol herodrol ar arfbais nifer o drefi a dinasoedd yn Sbaen, fel Valencia. Mae arwyddlun herodrol hen sir Frycheiniog yng Nghymru yn cynnwys chwe ystlum ar y darian. Mae'r darian hon yn cael ei harddangos ar bapur pennawd Grŵp Ystlumod Sir Frycheiniog.

Mae ystlumod yn rhan o fathodynau sawl sgwadron yn yr Awyrlu Brenhinol (yr RAF). Mabwysiadodd Sgwadron Rhif 9 yr RAF fathodyn yr ystlum yn 1917, ynghyd â'r arwyddair Lladin Per Noctem Volamus "Rydym ni'n hedfan trwy'r nos".



Valencia



Ymchwiliwch i drefi a sgwadronau eraill sy'n defnyddio ystlumod yn eu bathodynau a'u harfbeisiau. Allwch chi ddarganfod y rheswm am eu dewis? Pam mae ystlumod ar labeli rym Bacardi?

Ble arall cewch chi hyd i ystlumod yn cael eu defnyddio fel arwyddluniau?

Allwch chi ddarganfod chwedlau a hanesion gwerin o wahanol rannau o'r byd sy'n cynnwys ystlumod?



Mae delwedd gref gan ystlumod, ac maent yn aml yn cyffroi teimladau cryf, boed hynny'n edmygedd a pharch neu'n ofn ac atgasedd. Gwelir hyn mewn gwahanol ddiwylliannau a llên werin ar draws y byd. Mae teimladau pobl am ystlumod yn effeithio ar sut maen nhw'n ysgrifennu amdany'n nhw, ac mae'r hyn maen nhw'n ei ddarllen a'i glywed hefyd yn gallu effeithio arny'n nhw, hyd yn oed os nad yw e'n wir. Sut deimladau dybiwch chi oedd gan awduron y darnau yma am ystlumod?

Allwch chi ysgrifennu cerdd neu ddarn disgrifiadol am ystlumod, yn dangos eich teimladau? Nawr, gan ddefnyddio eich dychymyg, ysgrifennwch un arall yn mynegi barn i'r gwrthwyneb.

Echolocation

Seeing in sound, the bat sings a solo
Echoes enriched in the reflections of the night
Detailing the dark, defining its world
A capella performed with the wind
The familiar sound of woodland and water
A minimalist music.
The echo of a maybug modulated by movement
Its wings glinting, a beating beacon
A promise of food in the shifting soundscape

The night insects, unsuspecting mirrors
Betray their presence to the hunter
The night singer, seeing it's way in sound.

John Altringham

A bat is no bird but a winged mouse; for she creeps with her wings. Is without feathers and flyeth with a kind of skein as bees and flies do.

Excepting that the Bats wings hath a farre thicker and stronger skin.

And this creature thus mungress-like, cannot look very lovely.

John Swan in 1635

The Bat

By Ogden Nash

Myself, I rather like the bat,
It's not a mouse, it's not a rat.
It has no feathers, yet has wings,
Its quite inaudible when it sings,
It zigzags through the evening air
And never lands on ladies hair,
A fact of which men spend their lives
Attempting to convince their wives.

Darllenwch gerdd Ruth Pitter, *The Bat*, heb boeni am eiriau dydych chi ddim yn eu deall, ond gan geisio teimlo sut brofiad gafodd hi.

Sut oedd hi'n teimlo ar ddechrau'r gerdd?

Sut oedd hi'n teimlo ar y diwedd? Beth wnaeth iddi newid ei meddwl am ystlumod?

Chwiliwch am gerddi a rhyddiaith eraill am ystlumod, a chymharu teimladau'r gwahanol awduron am ystlumod.

The Bat

Lightless, unholy, eldritch thing,
Whose murky and erratic wing
Swoops so sickently, and whose
Aspect to the female Muse
Is a demon's made of stuff
Like tattered, sooty waterproof,
Looking dirty, clammy, cold.

Wicked, poisonous and old;
I have maligned thee!...for the Cat
Lately caught a little bat,
Seized it softly, bore it in.
On the carpet, dark as sin
In the lamplight, painfully
It limped about, and could not fly.

Even fear must yield to love,
And pity make the depths to move
Though sick with horror, I must stoop,
Grasp it gently, take it up,
And carry it, and place it where
It could resume the twilight air.

Strange revelation! Warm as milk,
Clean as a flower, smooth as silk!
O what a piteous face appears,
What great fine thin translucent ears!
What chestnut down and crapy wings,
Finer than any lady's things –
And O a little one that clings!

Warm, clean, and lovely, though
not fair,
And burdened with a mother's care:
Go hunt the hurtful fly, and bear
My blessing to your kind in air.

Ruth Pitter

